

### **Ffurflen Atodol Enghreifftiol i Fyfyrrwyr /Ffurflen Gais Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)**

Mae cydnabod Dysgu Blaenorol (y cyfeirir ato'n aml fel RPL) yn galluogi Prifysgolion i wneud eithriadau ar gyfer modiwlau neu feysydd pwnc y mae ymgeiswyr eisoes wedi'u 'cwblhau', naill ai drwy addysg ffurfiol neu drwy brofiad a datblygiad proffesiynol. Felly, ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ailadrodd na chwblhau'r dysgu y cydnabyddir eu bod eisoes wedi'i gyflawni.

Mae'r MA Addysg Genedlaethol (Cymru) wedi'i gynllunio i gydnabod y bydd gan lawer o fyfyrwyr gymwysterau a/neu brofiad proffesiynol eisoes sy'n golygu eu bod yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni'r modiwlau sy'n cynnwys Blwyddyn 1 y rhaglen, fel nad oes angen iddynt ailadrodd cynnwys. **Ni fydd cydnabod Dysgu Blaenorol yn berthnasol i fodiwlau blwyddyn 2 na'r Traethawd Hir, y mae'n rhaid i bob myfyriwr ei gwblhau.**

O ganlyniad, gall ymgeiswyr sydd â **chymwysterau cydnabyddedig (e.e. TAR)** a/neu **brofiad proffesiynol sylweddol** wneud cais i'r rhain gael eu cydnabod yn ffurfiol i wrthbwysu rhai neu'r cyfan o'r 60 credyd o fodiwlau sy'n cynnwys blwyddyn 1 y rhaglen. Er mwyn bod yn gymwys i'w hystyried, rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth academaidd a/neu broffesiynol briodol eu bod yn bodloni'r Canlyniadau Dysgu ar gyfer y modiwlau, a restrir isod.

**Os oes gennych TAR gwerth 60 credyd** ar FHEQ Lefel 7 a gyflawnwyd fel arfer yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, **nid oes angen** i chi fapio eich dysgu proffesiynol i'r Canlyniadau Dysgu isod, a **dylech gyflwyno'ch trawsgrifiad** (os nad oes gennych hyn, dylech allu gofyn am un newydd gan eich Prifysgol).

**Os oes gennych SAC heb TAR, cyflawnwyd eich TAR dros 5 mlynedd yn ôl, neu os yw eich TAR yn cynnwys llai na 60 credyd Lefel 7, bydd angen i chi gyflwyno'ch trawsgrifiad ar gyfer** unrhyw elfennau o gredyd yr hoffech eu cynnwys, **a bydd angen i chi fapio** eich dysgu proffesiynol a/neu drwy brofiad i'r Canlyniadau Dysgu isod i werth y credydau sydd ar goll (e.e. os yw eich TAR yn rhoi 400 i chi Credydau Lefel 7, dim ond dysgu drwy brofiad sy'n werth 20 credyd y bydd angen i chi ei ddangos. Dylech fapio i'r modiwl(au) gyda'r Deilliannau Dysgu rydych chi'n teimlo sy'n dangos orau eich dysgu proffesiynol a/neu drwy brofiad.

Lle gallwch ond darparu tystiolaeth yn erbyn rhai o'r Deilliannau Dysgu, byddwch yn cofrestru ar unrhyw fodiwlau ym mlwyddyn un yn ôl yr angen i gwblhau'r Canlyniadau Dysgu angenrheidiol i symud ymlaen i flwyddyn dau'r rhaglen.

Amdanoch chi

<b>Enw Llawn</b>	<b>Ffurflen Atodol Enghreifftiol i Fyfyrrwyr</b>
<b>Rhif y cais/myfyriwr</b>	
<b>Dyddiad geni</b>	
<b>Cymhwyster a Gyflawnwyd:</b>	(e.e., TAR)
<b>Blwyddyn Wedi Graddio:</b>	
<b>Prifysgol Dyfarnu:</b>	(Hyd at 60 Credyd)
<b>Gwerth Credyd:</b>	YDW/NAC YDW
<b>Trawsgrifiad Academaidd wedi'i ddarparu?</b>	Llenwch y Ffurflen isod
<b>Cydnabod Credydau Rhannol a/neu Brofiad</b>	(e.e., TAR)

#### **Cydnabod Credydau Rhannol a/neu Brofiad**

Os nad oes gennych drawsgrifiad cymhwyster ffurfiol sy'n dangos y cyfan neu ran o'r 60 credyd o ddysgu Lefel 7, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi bodloni'r canlyniadau dysgu o'r modiwlau Blwyddyn 1 a amlinellir isod drwy astudiaeth academaidd, datblygiad proffesiynol a/neu brofiad proffesiynol. Bydd angen i chi roi myfyrdod a thystiolaeth ar sut rydych wedi gwneud hyn.

Mathau o dystiolaeth y gallech eu cynnwys fel rhan o'ch myfyrdod a gall tystiolaeth gynnwys:

1. Rolau presennol / blaenorol
2. Cyfrifoldebau
3. Cofnod o Ddysgu Proffesiynol
4. Tystiolaeth gan Reoli Perfformiad
5. Tystiolaeth gan Brosiectau Ymholi
6. Cysylltiadau â'r 5 Safon Broffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth Ysgolion  
<https://hwb.gov.wales/api/storage/19bc948b-8a3f-41e0-944a-7bf2cadf7d18/professional-standards-for-teaching-and-leadership-interactive-pdf-for-pc.pdf>

We have worked with previous applicants to provide, advice, guidance and worked examples to demonstrate how to go about completing this form. For full guidance, please click [here](#).

Rydym wedi gweithio gydag ymgeiswyr blaenorol i ddarparu, cynghori, arwain ac esiampl gweithiedig i ddangos sut i fynd ati i lenwi'r ffurflen hon. I gael arweiniad llawn, cliciwch [yma](#).

**Addysgeg ac Ymarfer (20 Credyd)**

**Modiwl Deilliannau Dysgu Bwriedig**

**Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu:**

1. Dangos yn feirniadol ddealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi a gwella cyflawniad pob dysgwr yn eu gofal.
2. Gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd ystod o strategaethau dysgu ac addysgu drwy ddefnyddio tystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth a thystiolaeth ymchwil
3. Dewis a chymhwyso'r strategaethau dysgu ac addysgu mwyaf priodol yn feirniadol er mwyn gwella cyrhaeddiad grŵp o ddysgwyr.
4. Ymgysylltu â deialogau beirniadol am addysgeg ac ymarfer a thystiolaeth a rhannu eu harfer proffesiynol.

**Myfyrio a Thystiolaeth yr Ymgeisydd**

1. Drwy gydol fy ngyrfa addysgu, rwyf wedi datblygu ac arddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi a gwella cyflawniad yr holl ddysgwyr rwy'n gyfrifol amdanynt gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau. Mae athrawon yn gyfrifol am gefnogi'r holl ddysgwyr er mwyn cynyddu eu cyflawniad fel rhan o system addysg gynhwysol. Rwy'n cefnogi cyflawniad dysgwyr bob dydd drwy gynllunio ac addysgu gwersi diddorol o safon drwy'r pedwar diben craidd, gan gynnwys y chwe maes dysgu a phrofiad yn fanwl. Rwyf wedi dangos fy ngallu i gefnogi'r HOLL ddysgwyr yn effeithiol wrth ymgymryd â'm rôl fel athro dosbarth; mae pwysigrwydd cynhwysiant a chyflawniad pob dysgwr yn agwedd ar addysgu sy'n hynod bwysig i mi. Rwy'n cynllunio gwersi gwahaniaethol yn effeithiol i diwallu anghenion dysgwyr sydd ag amrywiaeth o alluoedd gan gynnwys y sawl sydd ag anghenion addysgu arbennig a'r sawl sydd wedi dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol. Wrth i mi ymgymryd â'm Hastudiaethau Cynradd a'm gradd israddedig SAC, arsylwais i ar amrywiaeth o strategaethau effeithiol i wahaniaethu fel rhan o'm hastudiaeth ystafell ddosbarth. Roeddwn i'n gallu, yn ystod fy astudiaeth ystafell ddosbarth, werthuso'n feirniadol effeithiolrwydd strategaethau a gwnes i addasu'r rhain i ddiwallu anghenion fy nysgwyr fy hun. Rwyf wedi cefnogi a gwella cyflawniad yr holl ddysgwyr drwy sicrhau fy mod i'n asesu dysgwr yn effeithiol bob dydd drwy amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys y sawl yr arsylwais i arnynt ac yr ymchwiliais i iddynt fel rhan o'm hyfforddiant. Yn nodedig, mae'r rhain yn cynnwys defnyddio cwestiynau allweddol, byrddau gwyn, sesiynau llawn byr, gofyn cwestiynau i bob dysgwr a chodi bys bawd i ddangos dealltwriaeth. Rwyf hefyd wedi arddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd dadansoddi a defnyddio cyrhaeddiad a thargedau dysgwyr er mwyn cefnogi dysgu a'i symud ymlaen.
2. Drwy gydol fy hyfforddiant ac fel Athro Dosbarth, rwyf wedi defnyddio tystiolaeth ystafell ddosbarth i lywio ac addasu fy strategaethau addysgu. Wrth addysgu, rwyf wedi cwblhau amrywiaeth o ymchwil broffesiynol sydd wedi llywio fy addysgu. Cofnodwyd yr ymchwil hon yn fy nghofnod dysgu proffesiynol. Mae fy ymchwil wedi fy ngalluogi i adnabod a threialu amrywiaeth o strategaethau dysgu ac addysgu yn fy ystafell ddosbarth a gwerthuso'n feirniadol yr effaith y cafodd y strategaethau ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Er enghraifft, cafodd disgyblion yn fy nosbarth hi'n anodd asesu eu hunain gan ddefnyddio dulliau megis dwy seren a dymuniad ac roedd angen llawer o arweiniad arnynt wrth fyfyrion ar eu dysgu. Gwnes i dreialu strategaeth hunan-asesu o'r enw 'Y Pwll Dysgu' (Nottingham 2007, 2010, 2017). Creodd James Nottingham y Pwll Dysgu fel fersiwn bob dydd o Barth Datblygu Procsimol Vygotsky (1978). Mae'r Pwll Dysgu'n strategaeth sy'n cefnogi dysgwyr wrth iddynt fyfyrion ar eu dysgu ond mae hefyd yn annog dysgwyr i feddu ar 'feddylfryd twf' sy'n eu hannog i herio eu hunain drwy fyfyrion ar eu dysgu. Drwy fynd drwy'r Pwll Dysgu, gall dysgwyr ddatblygu Meddylfryd Twf (Dweck, 2006) a gwella eu hunan-effeithiolrwydd (Bandura, 1977). Drwy ddefnyddio'r pwll dysgu fel offeryn myfyrion ac asesu yn fy ngwersi, dros amser, arddangosodd dysgwyr ymagwedd 'alla i ddim gwneud hwn ETO' at ddysgu a

gwellodd dyfnder myfyrdodau dysgwyr ar eu dysgu eu hunain. Rhannais i fy ymarfer ystafell ddosbarth â staff addysgu mewn cyfarfod staff, a chyda fy nghefnogaeth, mae'r holl ystafelloedd dosbarth yn awr yn defnyddio'r pwll dysgu fel offeryn hunan-asesu a meddylfryd twf ar gyfer dysgu ac addysgu. Fel ymarferydd, gallaf fod yn feirniadol o ran strategaethau dysgu ac addysgu. Bu adegau pan dreialais i strategaeth dysgu ac addysgu gyda fy nysgwyr ond mae hi heb weithio felly rwyf wedi gorfod addasu i ddiwallu anghenion fy nysgwyr.

3. Drwy gydol fy ngyrfa addysgu, rwyf wedi arsylwi ar amrywiaeth o strategaethau addysgu, eu datblygu a'u defnyddio er mwyn gwella cyrhaeddiad grŵp o ddysgwyr. Mae pwysigrwydd cynhwysiant a chyflawniad pob dysgwr wrth wraidd addysg. Rwyf wedi dethol a chymhwysio amrywiaeth o strategaethau yn fy addysgu i wella cyrhaeddiad grŵp o ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu cydweithredol, disgwyliadau uchel, sgaffaldio priodol, gofyn cwestiynau allweddol a defnyddio data'n gywir i fonitro ac olrhain cynnydd. Rwyf hefyd yn credu bod cynnwys rhieni'n allweddol ar gyfer gwella cyrhaeddiad yr holl ddysgwyr. Mae cysylltiad cryf a chefnogol â'r cartref wedi bod hyd yn oed yn fwy arwyddocaol a hollbwysig ar gyfer cynnydd dysgwyr oherwydd pandemig y Coronafeirws. Mae'r angen am gysylltiadau â'r cartref i gefnogi lles ac addysg dysgwyr yn hollbwysig. Yn fy ystafell ddosbarth, rwy'n credu mewn diwylliant o feithrin, cariad a gofal er mwyn cefnogi lles dysgwyr, rwyf wedi arsylwi ar y ffaith na ellir cynyddu cyrhaeddiad oni bai fod dysgwyr yn teimlo fel ein bod yn gofalu amdanynt yn y lle cyntaf a bod eu hystafell ddosbarth yn lle cadarnhaol sy'n cynnwys athro sy'n cefnogi eu hiechyd meddwl a lles. Rwyf wedi arsylwi ar hwn yn benodol gyda dysgwyr difreintiedig a bregus a wnaeth gynnydd sylweddol wrth weithio fel grŵp bach mewn ysgol yn fy nghwmni yn ystod y cyfnod clo yn gynnar yn 2021.
4. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn fy ysgol a chyda phobl eraill yn ystod cyfarfodydd clwstwr i gynnal dialogau beirniadol ynghylch addysgeg ac ymarfer. Mewn amrywiaeth o gyfarfodydd staff, rydym wedi trafod ein strategaethau dysgu ac addysgu fel ysgol, a'u gwerthuso'n feirniadol, ac rwyf wedi gwrandao ar ganfyddiadau cydweithwyr profiadol er mwyn i mi lywio fy addysgu fy hun. Rwyf wedi cael amrywiaeth o gyfleoedd i rannu fy ymarfer proffesiynol â phobl eraill. Rwyf wedi cyflwyno digwyddiadau hyfforddi staff fel rhan o gyfarfodydd staff a oedd yn seiliedig ar fy ymarfer. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiad hyfforddi staff ar ddefnyddio ioga i wella lles myfyrwyr, hyfforddiant staff ar Jigsaw; cynllun lechyd a Lles newydd ein hysgol, hyfforddiant staff ar ddefnydd effeithiol o'r pwll dysgu a rhoi chyflwyniad i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a'r Llywodraethwyr ar fy strategaethau dysgu ac addysgu wrth gynllunio ac addysgu'r pedwar diben craidd. Pan ddychwelais i o Sweden, roeddwn i wedi ennill mewnwelediad anhygoel i system addysg Sweden ac effeithiolrwydd dysgu yn yr awyr agored. Rhannais i fy nghanfyddiadau â staff yn fy ysgol ac rydyn ni wedi gweithio fel tîm i wella'n maes dysgu yn yr awyr agored ac i sicrhau bod dysgu yn yr awyr agored yn awr yn rhan o'n cynllunio ac addysgu wythnosol. Cyflwynais i ganlyniad fy nghanfyddiadau o'm hymweliad cyntaf â Sweden a'r effaith gadarnhaol y cafodd fy nghanfyddiadau ar ddysgwyr i gydweithwyr o Erasmus. Roedd hwn

yn gyfle gwych oherwydd galluogodd hwn i mi wrando ar ganfyddiadau cydweithwyr eraill hefyd o amrywiaeth o ysgolion ar draws de-ddwyrain Cymru a rhoi'r canfyddiadau hyn ar waith yn fy ysgol.

### **Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth (20 Credyd)**

#### **Modiwl Deilliannau Dysgu Bwriedig**

##### **Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu:**

1. Dadansoddi a syntheseiddio dystiolaeth empirig berthnasol yn feirniadol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi.
2. Dadansoddi a syntheseiddio data profiad lleol, cenedlaethol ac ysgol yn feirniadol er mwyn cael cipolwg ar gyflawniad, cynnydd a chymhelliant plant yn y broses ddysgu, er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
3. Dangos gwybodaeth am y cwricwlwm, addysgeg, asesu ac arferion cynhwysol sy'n briodol i'w Meysydd Dysgu a Phrofiad penodol.
4. Myfyrio'n feirniadol ar y modd y gellir strwythuro'r amgylchedd dysgu a'r adnoddau i gefnogi dysgu effeithiol.
5. Dadansoddi a gwerthuso eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain yn feirniadol ynghylch addysgu a dysgu er mwyn datblygu fel ymarferydd myfyriol.

#### **Myfyrio a Thystiolaeth yr Ymgeisydd**

1. Mae dadansoddi a syntheseiddio tystiolaeth empirig berthnasol yn nodwedd ymarfer sydd wedi'i lywio gan dystiolaeth sydd ar flaen y gad o ran y system addysg newydd yng Nghymru. Drwy gydol fy ngyrfa addysgu a'm hamser yn y Brifysgol, rwyf wedi gallu defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwil i graffu ar lenyddiaeth addysg, polisi a dogfennau perthnasol a'u dadansoddi. Rwyf wedi derbyn hyfforddiant staff ar dechnegau ymchwilio ar gyfer ymchwil broffesiynol er mwyn ymgymryd ag ymarfer sydd wedi'i lywio gan dystiolaeth. Rwyf wedi defnyddio rhai o'r technegau ymchwilio a ddysgais i er mwyn dadansoddi amrywiaeth o ffynonellau yn effeithiol. Yn arbennig, mae technegau ymchwilio drwy brofiad wedi bod yn ddefnyddiol i mi, lle rydw i'n ymchwilio i ddull addysgu a'r theori y tu ôl iddo ac yna rwy'n gweithredu ar hwn yn yr ystafell ddosbarth er mwyn casglu canlyniadau i'w dadansoddi. Er enghraifft, wrth ymchwilio i strategaethau addysgu i gefnogi fy nysgwyr i fod yn 'gyfranwyr mentrus, creadigol', cynhaliais i ymchwil a chanfod y 'Model Pum Ymagwedd' (Lucas, Claxton a Spencer, 2013). Gellir defnyddio'r model hwn i asesu a datblygu'r pum ymagwedd graidd wrth ddatblygu meddwl creadigol. Wnes i asesu pob grŵp o ddysgwyr o alluoedd gwahanol gan ddefnyddio'r model pum ymagwedd ac yna dadansoddais i'r canlyniadau er mwyn cynllunio a darparu gweithgareddau i ddatblygu'r ymagweddau craidd y mae eu hangen ar fy nysgwyr i ddatblygu.
2. Fel rhan o'm rôl fel Athro Dosbarth, rwyf wedi cael cyfleoedd i ddadansoddi'n feirniadol a syntheseiddio data er mwyn i mi ennill mewnwelediad i gyflawniad disgyblion. Mae'r mewnwelediad hwn wedi fy helpu i wneud penderfyniadau er mwyn cynllunio a chyflwyno'r sgiliau priodol er mwyn i mi alluogi dysgwyr i wneud cynnydd sy'n seiliedig ar ddata blaenorol. Rwyf wedi cael y cyfle i ddadansoddi data er mwyn i mi osod targedau, gwahaniaethu'n effeithiol ac olrhain cynnydd. Defnyddiwyd data megis asesiadau GL, MaLT (Asesiad o Fathemateg ar gyfer Dysgu ac Addysgu) a Phrofion Cenedlaethol i ddadansoddi cynnydd ac i wneud penderfyniadau o ran disgyblion y gall fod angen iddynt gael mynediad at ymyriadau. Rwyf hefyd wedi cael y cyfle i asesu ffoneg gynnar bob 6 wythnos fel rhan o asesiadau Read Write Inc., sydd wedi fy ngalluogi i ennill mewnwelediad cyfoes i gynnydd fy nisgyblion wedi'u targedu y mae angen ymyriadau ffoneg gynnar arnynt. Fel rhan o'm rôl fel Arweinydd Iechyd a Lles, dadansoddais i ddata ar lefel leol a chenedlaethol pan gynhaliodd disgyblion Cyfnod Allweddol dau yr arolwg HAPPEN, sef holiadur iechyd a lles sy'n canolbwyntio ar iechyd corfforol a meddwl disgyblion ac sy'n cymharu data ag ysgolion yng Nghymru. Defnyddiais i'r data hwn i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau'n effeithiol, a fyddai'n gwella iechyd corfforol a meddwl ein disgyblion. Defnyddiwyd y data rwyf wedi'i gasglu a'i ddadansoddi ar lefel leol a chenedlaethol i lywio Cynllun Datblygu'r Ysgol er mwyn gosod targedau yn y dyfodol.
3. Yn ystod fy amser fel myfyriwr, enillais i fewnwelediad a phrofiad o gynllunio ac addysgu gan ddefnyddio'r Cwricwlwm i Gymru 2008 a chefais i brofiad o gynllunio ac addysgu drwy'r Cwricwlwm Newydd i Gymru (2022). Fodd bynnag, enillais i swm helaeth o wybodaeth am

gyflwyno a chynllunio drwy'r cwricwlwm newydd i Gymru yn ystod fy amser fel Athro Dosbarth. Rwyf wedi arddangos gallu i gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu cyfoethog a dilys drwy'r pedwar diben craidd ac ar draws pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Rwyf hefyd wedi ymgymryd â hyfforddiant diweddar ar y Cwricwlwm Newydd i Gymru, sydd wedi rhoi cyfle i mi ddadansoddi fy nghynllunio cyfoes a darpariaeth yr ysgol i asesu a oeddem yn bodloni amcanion y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Yna, wnes i addasu fy nghynllunio a'm haddysgu i wneud yn siŵr fy mod i'n cynllunio profiadau dysgu cyfoethog a dilys ar gyfer disgyblion yn unol â'r cwricwlwm newydd. Yn ystod fy amser yn y Brifysgol, wnes i arddangos gwybodaeth am addysgeg drwy ymchwilio i amrywiaeth o addysgegau. Rwy'n defnyddio'r wybodaeth hon a enillais i am amrywiaeth o addysgegau wrth addysgu. Er enghraifft, rwy'n defnyddio Hierarchaeth Anghenion Maslow bob dydd wrth addysgu i sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu.

4. Rwyf wedi cael y cyfle i fyfyrion a dadansoddi fy ngwerthoedd a'm credau fy hun o ran dysgu ac addysgu er mwyn i mi ddatblygu fel ymarferydd myfyrgar. Drwy ddigwyddiadau hyfforddi staff, a thrwy ddadansoddi fy addysgu a'm cynllunio drwy'r cwricwlwm newydd, rwyf wedi ystyried yr effeithiau cadarnhaol y cafodd fy addysgu ond hefyd y meysydd lle gellir gwella. Yn ystod fy amser fel myfyriwr, roeddwn i'n gallu myfyrion ar fy addysgu drwy asesiadau gwersi manwl ac rwy'n gwneud hyn nawr, fel Athro Dosbarth, er mwyn llywio fy addysgu a'm cynllunio ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi myfyrion ar fy ngwerthoedd a'm credau fy hun drwy broses o hunan-werthuso a hunan-arsylwi. Yn ddiweddar, rwyf wedi cwblhau digwyddiad hyfforddiant ysgol gyfan ar y broses o 'Deithiau Tywys' sef canllawiau pum cam i ddatblygiad proffesiynol. Wnes i ffilmio fy hun yn addysgu ac yna dadansoddais i'r ffilm, gan nodi'r cyflawniadau yn fy ngwersi ond hefyd y meysydd lle gellir datblygu fy ymarfer. Rwy'n credu bod myfyrion'n feirniadol ar fy addysgu, fy ngwerthoedd a'm credau'n hollbwysig er mwyn i mi wella a datblygu'n barhaus fel athro.
5. Rwyf wedi cael y cyfle i fyfyrion a dadansoddi fy ngwerthoedd a'm credau fy hun o ran dysgu ac addysgu er mwyn i mi ddatblygu fel ymarferydd myfyrgar. Drwy ddigwyddiadau hyfforddi staff, a thrwy ddadansoddi fy addysgu a'm cynllunio drwy'r cwricwlwm newydd, rwyf wedi ystyried yr effeithiau cadarnhaol y cafodd fy addysgu ond hefyd y meysydd lle gellir gwella. Yn ystod fy amser fel myfyriwr, roeddwn i'n gallu myfyrion ar fy addysgu drwy asesiadau gwersi manwl ac rwy'n gwneud hyn nawr, fel Athro Dosbarth, er mwyn llywio fy addysgu a'm cynllunio ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi myfyrion ar fy ngwerthoedd a'm credau fy hun drwy broses o hunan-werthuso a hunan-arsylwi. Yn ddiweddar, rwyf wedi cwblhau digwyddiad hyfforddiant ysgol gyfan ar y broses o 'Deithiau Tywys' sef canllawiau pum cam i ddatblygiad proffesiynol. Wnes i ffilmio fy hun yn addysgu ac yna dadansoddais i'r ffilm, gan nodi'r cyflawniadau yn fy ngwersi ond hefyd y meysydd lle gellir datblygu fy ymarfer. Rwy'n credu bod myfyrion'n feirniadol ar fy addysgu, fy ngwerthoedd a'm credau'n hollbwysig er mwyn i mi wella a datblygu'n barhaus fel athro.

#### **Ymarfer Cydweithredol a Phroffesiynol (20 Credyd)**



### **Modiwl Deilliannau Dysgu Bwriedig**

#### **Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu:**

1. Dadansoddi a myfyrio'n feirniadol ar ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.
2. Gwerthuso'n feirniadol ddiwylliant dysgu sy'n hyrwyddo Gwelliant parhaus i gefnogi'r cwricwlwm.
3. Cymhwysio modelau damcaniaethol sy'n ymwneud â chasglu a dadansoddi data'n feirniadol mewn perthynas â gwella ysgolion.
4. Myfyrio'n feirniadol ar nodweddion ymarfer cydweithredol a phroffesiynol.
5. Gwerthuso dulliau beirniadol o godi safonau a gwella addysgeg a fydd yn gwella ansawdd dysgu ac addysgu ar draws sefydliad.

### **Myfyrio a Thystiolaeth yr Ymgeisydd**

1. Mae'r rhan fwyaf o ysgolheigion yn ystyried sefydliadau dysgu fel cysyniad aml-lefel sy'n cynnwys ymddygiad unigolion, ymarferion sefydliad-eang, gwaith tîm a diwylliant. Sefydliad dysgu yw ysgol yn bennaf lle mae'r credau, y gwerthoedd a'r arferion yn cefnogi dysgu parhaus i bawb. Yng Nghymru, mae'r broses o ddatblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu wedi dod yn fwyfwy arwyddocaol oherwydd cyflwyniad Cwricwlwm Newydd 2022. Mae Ysgol fel Sefydliad Dysgu'n rhywle lle gall pawb, gan gynnwys yr uwch-dîm arwain, yr holl staff, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y gymuned leol, weithio gyda'i gilydd i archwilio syniadau a barn i greu cynllun ar gyfer gweledigaeth yr ysgol. Rwyf wedi gallu myfyrio ar bwysigrwydd hyn drwy gydol fy ngyrfa addysgu hyd yn hyn ac rwyf wedi gallu dadansoddi effaith ystyried barn yr holl rhanddeiliaid er mwyn greu sefydliad dysgu lle mae diddordebau ei gymuned wrth ei wraidd. Rwyf wedi gallu myfyrio ar ddarpariaeth a chwricwlwm ein hysgol er mwyn eu diwygio i ddarparu profiadau sy'n addas i'n dysgwyr a'r gymuned maent yn byw ynddi. Pob tymor, rwyf wedi myfyrio ar bwysigrwydd mewnbwn rhieni/gofalwyr i ddysgu eu plant ac rwyf wedi cynnwys rhieni/gofalwyr yn y broses o gynllunio pynciau newydd er mwyn casglu syniadau ac ystyried yr hyn sy'n bwysig i bawb. Rwyf hefyd wedi cael y cyfle i fyfyrion ar bwysigrwydd Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu oherwydd pandemig y Coronafeirws. Nid yw'r ysgol yn lle i athrawon a disgyblion yn unig; mae'n rhan sylweddol o'r gymuned ac, yn fy mhrofiad i, dyma galon y gymuned, sy'n darparu cefnogaeth a gofal i ddisgyblion ond hefyd i'r gymuned.
2. Mae gwella'n barhaus i gefnogi'r cwricwlwm yn sylweddol bwysig er mwyn gwella dysgu, cefnogi dysgwyr i gyflawni, sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus ac i hyrwyddo dylunio'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae diwylliant sy'n meithrin gwybodaeth, holi a rhannu'n enghraifft o ddiwylliant dysgu sy'n hyrwyddo gwella i gefnogi'r cwricwlwm. Mae hwn yn allweddol i wella'r cwricwlwm. Rwyf wedi arsylwi bod gan staff amrywiaeth o arbenigeddau a doniau y gellir eu defnyddio i gefnogi'r cwricwlwm. Fel ymarferydd mewn ysgol gynradd, disgwylir ehangder o wybodaeth fanwl am y cwricwlwm er mwyn addysgu amrywiaeth o Feysydd Dysgu a Phrofiad. Rwy'n credu, er mwyn gwella'r cwricwlwm, dylid ystyried diddordebau ac arbenigedd staff er mwyn cefnogi ein gilydd a rhannu arfer da. Rwyf wedi cymryd rhan mewn olrhain cynnydd y Maes Dysgu a Phrofiad, Iechyd a Lles, fel rhan o dargedau Cynllun Datblygu'r Ysgol. Fel rhan o'r gwaith hwn o osod targedau, rwyf wedi ystyried a gofyn am adborth ar arbenigedd yr holl staff er mwyn dylunio Maes Dysgu a Phrofiad addas sydd â'r nod o wella lles disgyblion a staff drwy dargedau y gellir eu cyflawni.
3. Fel rhan o'm rôl fel arweinydd Iechyd a Lles, rwyf wedi cael profiad o gymhwyso modelau damcaniaethol i gasglu a dadansoddi data mewn perthynas â gwella'r ysgol. Er enghraifft, rwyf wedi casglu data mewn perthynas â'r arolwg HAPPEN, sef holiadur iechyd a lles sy'n canolbwyntio ar iechyd corfforol a meddwl disgyblion. Mae'r data a gasglwyd yn yr arolwg wedi fy ngalluogi i weithio gyda'r Uwch-dîm Arwain i osod targedau fel rhan o'n Cynllun Datblygu Ysgol sy'n cefnogi ac yn gwella iechyd corfforol a meddwl ein disgyblion. Rwyf wedi cymryd rhan yn rheolaidd wrth werthuso'r Cynllun Datblygu Ysgol a dogfennau eraill ynghylch gwella'r ysgol, sy'n rhan hollbwysig,

yn fy marn i, o wella safonau. Fel ysgol, defnyddir y model gwerthuso Coch, Melyn, Gwyrdd i amlinellu cynnydd tuag at bob targed ac mae'n ffordd weledol o sefydlu amserlenni realistig. Rwyf wedi cael peth profiad o ddefnyddio'r model hwn wrth fesur y cynnydd tuag at y Wobr Ansawdd Ysgolion Iach a'n baner blatinwm *Eco-Ysgolion*. Rwy'n credu bod y model gwerthuso Coch, Melyn, Gwyrdd wedi bod yn offeryn effeithiol a ddefnyddir i ddadansoddi'n feirniadol ac olrhain cynnydd. Rwyf hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r Uwch-dîm Arwain i gyflawni Ymagwedd Ysgol Gyfan Gwent at Iechyd Meddwl a Lles. Yn ystod y cwrs rhithwir hwn, rwyf wedi bod yn rhan o sawl deialog broffesiynol.

4. Mae dysgu proffesiynol yn barhaus ac mae athrawon a'r Uwch-dîm Arwain yn gyfrifol am effaith dysgu proffesiynol ar gynnydd a chyflawniad myfyrwyr. Gall ymarfer cydweithredol effeithiol gefnogi a gwella cynllunio, addysgu a dysgu. Mae'n atgyfnerthu ymarfer dysgu ac addysgu ar draws yr holl feysydd. Mae ymarfer cydweithredol yn meddu ar amrywiaeth o nodweddion, gall y rhain gynnwys dysgu cydweithredol gyda disgyblion a gweithio gydag ymarferwyr i wella cynllunio a dylunio'r cwricwlwm. Rwy'n credu bod gweithio gydag ymarferwyr eraill yn hollbwysig mewn ysgol. Rwyf wedi arsylwi ar amrywiaeth o ymarferion cydweithredol ag aelodau eraill o staff yn ogystal â'i harddangos. Mae'r rhain yn cynnwys, yn benodol, dathlu ein gilydd a rhannu llwyddiannau, gweithio gyda'r Uwch-dîm Arwain i osod nodau ac olrhain cynnydd y nodau hyn a datrys problemau'n effeithiol gyda'n gilydd. Yn ddiweddar, rydym wedi datblygu system mentora cymheiriaid lle gall staff hyfforddi ei gilydd drwy arsylwi, addysgu ac yna symud drwy'r pum cam i wella maes datblygu. Mae'r sgysiau cefnogol, anfeirniadol a phroffesiynol hyn sy'n canolbwyntio ar agweddau cadarnhaol ar ymarfer addysgu'n galluogi pob cymar i fyfyrion ar ymarfer mewn ffordd sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth wella dysgu ac addysgu mewn dull nad yw'n archwiliol nac yn feirniadol.
5. Ceir amrywiaeth o ddulliau rwyf wedi arsylwi arnynt y gellir eu defnyddio i wella addysgeg er mwyn gwella ansawdd dysgu ac addysgu ar draws sefydliad. Mae datblygiad proffesiynol parhaus i'r holl staff yn enghraifft o ddull i godi safonau. Mae datblygiad proffesiynol drwy gydol eich gyrfa yn bwysig er mwyn dysgu a datblygu sgiliau newydd i wella ymarfer presennol ac ansawdd dysgu ar gyfer disgyblion. Gellir cyflawni hyn drwy ddigwyddiadau hyfforddi staff, ymchwil broffesiynol a diwrnodau gwella. Yn fy marn i, dylai staff fod yn gallu dewis sut maent yn datblygu'n broffesiynol, o dan arweiniad yr Uwch-dîm Arwain ond hefyd ddatblygu mewn meysydd datblygiad personol yn eu tyb nhw. Fel athro, dull pwysig ar gyfer codi safonau a gwella addysgeg yn fy marn i yw asesu eich ymarfer eich hun yn erbyn y safonau addysgu i sicrhau bod ansawdd dysgu ac addysgu'n gwella'n barhaus. Rwyf wedi canfod bod hwn yn offeryn defnyddiol ar gyfer datblygiad personol. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae ymarfer cydweithredol yn ddull arall o godi safonau rwyf wedi ei brofi. Mae'r dull o fentora cymheiriaid drwy hyfforddi wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth wella fy addysgeg dros fy hun oherwydd rwyf wedi cynnal sgysiau proffesiynol sy'n gefnogol yn ogystal â gosod nodau y gellir eu cyflawni.

**At ddefnydd mewnol yn unig:**

Cyfarwyddwyr Rhaglenni i bennu Modiwlau Amnewid Blwyddyn 1 i fyfyrwyr os oes angen yn seiliedig ar Adlewyrchiad ymgeisydd a Thystiolaeth o'r Canlyniadau Dysgu.

<b>Modiwl Amnewid</b>	<b>I'w neilltuo i fyfyrwr (X)</b>
Ymarfer Cydweithredol a Phroffesiynol	
Arferion sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth	
Addysgeg ac Ymarfer	